# Uwch Gynghorydd - Polisi a Phartneriaethau

### Gweithio i ColegauCymru

## Cytundeb

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth cyfnod penodol, amser llawn (neu rannu swydd/rhan amser priodol), yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf tri mis yn foddhaol.

## Cyflog

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn cyflog o £53,000 y flwyddyn, pro rata.

## Gwyliau

Yr hawl gwyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yw 37 diwrnod, pro rata. Yn ogystal â'r hawl personol hwn, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd hawl i wyliau ar 8 o wyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau ychwanegol.

## Oriau Gwaith

Yr oriau cytundebol amser llawn yw 37 awr yr wythnos heb gynnwys seibiannau bwyd dyddiol. Bydd yr oriau gwaith yn gyfryw i gwrdd ag anghenion swydd yr Uwch Gynghorydd - Polisi a Phartneriaethau.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

## Pensiwn

Bydd ColegauCymru yn gwneud cyfraniad misol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw’r unigolyn yn cyfrannu at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gofrestru’n awtomatig i gynllun pensiwn gweithle.

## Pensiwn Cyfnod Rhybudd

Mae angen tri mis o rybudd.

## Cyfnod Prawf

Mae cyfnod prawf o dri mis yn berthnasol i'r rôl hon.

## Lleoliad

Bydd y rôl yn gyfuniad o weithio gartref ac o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa, yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB. Mae parcio am ddim yn ein heiddo.

Gall y swydd olygu rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan olygu bod angen aros dros nos.

## Eich Gwybodaeth

Os dewiswch ymgeisio am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi roi gwybodaeth i ni amdanoch chi. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth amdanoch gan drydydd partïon, megis eich canolwyr a, lle bo'n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a ydych yn addas ar gyfer y rôl hon ac, os byddwch yn llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol ar gael yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.